# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Machreth
## Llanfachreth
## Dolgellau
## LL40 2DY

**Rhif yr ysgol: 6613037**

**Dyddiad yr arolygiad: 22/02/10**

**gan**

**Gwilym Trebor Roberts**
**78291**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/10**

**O dan rif contract Estyn: 1111609**

**Addysg grefyddol**
**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig.**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnodau Allweddol 1 a 2**
**Nodweddion da**

207. Mae disgyblion cyfnod allweddol 1 i gyd wedi llunio gweddiau diolch i safon dda yn dilyn trafod sut mae Cristnogion yn gweddio.

208. Yn dilyn ymweliad â‟r eglwys leol mae bron oll o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn gwybod yn dda am bwrpas a phrif nodweddion eglwys.

209. Gall holl ddisgyblion cyfnod allweddol 1 drafod beth yw teulu a gofal mam yn dda. Cynigant eu syniadau am beth yw cariad mam a‟r effaith arnynt hwy yn dda.

210. Mae disgyblion B2 i gyd yn dangos dealltwriaeth dda o nodweddion crefydd Hindwiaeth trwy drafod hanes Rama a Sita.

211. Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 yn gwybod bod Iesu Grist yn bwysig i‟r Cristion.

212. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ystyried cwestiynau a materion haniaethol megis “A oes heddwch?” yn dda. Cysylltant eu syniadau gyda‟u profiadau, gyda thraddodiad Cristnogol, bywyd Iesu Grist ac hefyd trwy‟r hyn a ddysgant am draddodiad Iddewiaeth.

213. Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn myfyrio ac archwilio eu syniadau am Gristnogaeth yn dda wrth drafod symbolau ac arteffactau penodol.

214. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod yn dda sut mae Duw yn cefnogi bywyd credinwyr ac yn cynnig syniadau perthnasol iddynt hwy ynglŷn â sut mae hyn yn digwydd.

**Diffygion**

215. Nid oes diffygion pwysig.